# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 19EG CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni*

Pwynt Cyswllt


**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 13 Chwefror 2025)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Diane King | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Dewi Jones | Cyngor Gwynedd |

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Manon Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Paul Smith | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Noel Fitzgerald | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwyr |
| Jennie Downes | Yr Eglwys yng Nghymru |

Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwern ap Rhisiart | Cyngor Gwynedd |

Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Euros Davies | Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion |
| Rhys Williams | Pennaeth Gwasanaeth GwE -Dysgo Proffesiynol |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bethan Eleri Roberts | Rheolwr Rheoli Perfformiad |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Tachwedd 2024 fel rhai cywir

**5. CYLLIDEB GWE 2024-2025 - ADOLYGIAD HYD AT DDIWEDD IONAWR 2025** 9 - 14

I ystyried a derbyn yr adroddiad

**6. CYLLIDEB SYLFAENOL GWE 2025/2026** 15 - 18

I ystyried yr adroddiad a mabwysiadau'r gyllideb sylfaenol ar gyfer Ebrill – Mai 2025/26

**7. PARHAD GWASANAETH 01/04/2025 I 31/05/2025** 19 - 22

I ystyried yr adroddiad

**8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Ar y pwynt yma nid oes penderfyniad yn cael ei wneud ac mae angen trafod y bwriad. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**9. DISWYDDIADAU GWIRFODDOL**

I ystyried yr adroddiad

(copi i Aelodau yn unig)

**CYDBWYLLGOR GWE**

**27/11/2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Julie Fallon – Cadeirydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Diane King (Cyngor Sir Ddinbych), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint) a Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais**: Manon Williams Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd

**Swyddogion Heb Bleidlais:** Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn) Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Gwern ap Rhisiart (Cyngor Gwynedd)

**Swyddogion GwE:** Rhys Williams (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Dysgu Proffesiynol), Euros Davies (Pennaeth Gwasanaeth GwE – Gwella Ysgolion) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE)

**Swyddogion yr Awdurdod Lletyol:**
Ffion Madog Evans (Swyddog Cyllid Statudol - Gwynedd), Hywyn Lewis Jones (Cyfrifydd Addysg ac Economi - Gwynedd) Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Gwynedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**
Siwan Glyn ac Osian Roberts (Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Paul Smith (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2il Hydref 2024

**5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYDBWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r cydbwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon 2023/24 (ôl-archwiliad), adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru a'r Llythyr Cynrychiolaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr yn electroneg.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), yr Aelodau drwy'r datganiad gan eu hatgoffa bod cyfrifon amodol wedi eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor ym mis Hydref 2024 ble amlygwyd y prif faterion a'r nodiadau perthnasol. Adroddwyd na fu unrhyw newid i brif ddatganiadau ariannol yr adroddiad hwnnw (y Fantolen, Datganiad Incwm a Gwariant, Datganiad Llif Arian na'r Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau), ond bod ambell addasiad i'r nodiadau sydd yn cefnogi'r Datganiad;

- Nodyn 17b 'Taliadau i Swyddogion – dim newid wedi bod yn y nifer sydd yn ymddangos yn y tabl ar gyfer 2023/24 (43 o swyddogion), ond yn hytrach bod newid i'r bandiau cyflog roedd tri swyddog yn ymddangos ynddo. Nodwyd nad oedd chwyddiant cyflogau Soulbry 2022/23 wedi ei gadarnhau tan 2023/24 ac felly yn cymhlethu'r sefyllfa. Y nodyn bellach yn adlewyrchu y darlun am gyflogau y flwyddyn ariannol 2023/24 yn unig.
- Nodyn 20 Partïon Cysylltiedig / Aelodau - bu modd tynnu'r datgeliad gan nad oedd yn ofynnol ei gynnwys i gydymffurfio efo gofynion CIPFA.

Yn ychwanegol i hyn roedd nifer fach o fân ddiwygiadau naratif.

Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor i ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon a'r ISA260 gan Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifon 2023/24.

Ar ran Archwilio Cymru, nododd Osian Roberts bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn di-amod ar gyfrifon 2023/24 gan ategu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa, yn cydymffurfio ag arferion priodol ac mai gweithio i lefel o 'berthnasedd' roedd Archwilio Cymru. Adroddwyd bod y lefel o berthnasedd yn cael ei bennu i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau allai beri fel arall i'r sawl sydd yn defnyddio'r cyfrifon gael eu camarwain. Pennwyd y lefel perthnasedd o £356,000 ar gyfer archwiliad 2023/24 ac adroddwyd ar gamddatganiadau trothwy uwchlaw £17,000, (a gyfrifir fel 5% o berthnasedd). Ategodd bod y camau gweithdrefn bellach wedi eu cwblhau ac nad oedd materion ychwanegol i adrodd arnynt.

Yng nghyd-destun cydymffurfio moesegol, nodwyd bod Archwilio Cymru wedi parhau yn annibynnol a diolchwyd i Dîm Cyllid Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth.

Croesawyd yr adroddiad a diolchwyd i bawb am eu gwaith.

Cynigwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi adroddiad ISA260 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**
- **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2023/24**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE) i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth**

**6. CYLLIDEB GwE 2024/25 – ADOLYGIAD HYD AT DDIWEDD HYDREF 2024**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddaru aelodau ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb refeniw GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25 a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eglurodd Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau (Cyngor Gwynedd), bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol ynghyd â gwybodaeth ariannol gyflawn a bod yr adolygiad wedi ei gynnal yn seiliedig ar wybodaeth diwedd Hydref 2024.

Cyfeiriwyd at dalfyriad o'r sefyllfa derfynol gyda'r rhagolygon yn awgrymu y bydd tanwariant o £78 mil erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tynnwyd sylw at y prif faterion;

- Gweithwyr – tanwariant o £18 mil. Cyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi ei sefydlu yn seiliedig ar nifer staff yn Chwefror 2024. Yr arbediad wedi ei wireddu wedi i rai o aelodau staff GwE adael eu swyddi ynghyd â derbyniad grant sydd wedi ei ddefnyddio i gyllido swyddi. Ategwyd bod y ffigyrau hefyd wedi ymgorffori penderfyniad y Cydbwyllgor ar 1af Awst, gan gynnwys ailstrwythuro'r Uwch Dîm Reoli.
- Rhent - gorwariant o bron i £10 mil. Hyn yn unol â'r tueddiad hanesyddol, a rhagwelir y bydd GwE yn gorwario ar y pennawd yma eto eleni a hynny yn bennaf o ganlyniad i GwE yn rhentu gofod mwy o faint yn swyddfa Caernarfon.
- Cludiant - y darlun yn parhau i fod yn gyson gydag adolygiadau blaenorol gyda thanwariant o £50 mil ar y pennawd yma gan fod costau teithio wedi lleihau o ganlyniad i ffyrdd newydd o weithio dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cyflenwadau a Gwasanaethau - Rhagwelir tanwariant o bron i £20 mil ar y pennawd yma.

O ran sefyllfa cronfa wrth gefn, nodwyd mai swm y gronfa agoriadol oedd £221 o filoedd, ac yn dilyn ychwanegu'r tanwariant a ragwelir, bydd cyfanswm y gronfa yn tyfu i £300 o filoedd.

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i'r staff am gwblhau'r gwaith o fewn cyfnod anodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD HANNER BLWYDDYN AR YR ELFEN 'DIWYGIO' O'R GRANT ADDYSG AWDURDODAU LLEOL (GAALL)

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Gwasanaeth GwE - Dysgu Proffesiynol. Eglurwyd penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno prif grantiau addysg o dan un pennawd sef yGrant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl) o 2024-25 ymlaen. Bydd y grant yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol / Ysgolion gyda gofynion, risgiau telerau ac amodau'r grant bellach yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol unigol.

Eglurwyd, er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth i ysgolion tra bod adolygiad haen ganol y system addysg yng Nghymru yn mynd yn ei flaen, nododd Llywodraeth Cymru'r disgwyliad bod unrhyw drefniadau gweithio rhanbarthol presennol yn parhau yn ystod y cyfnod yma a'u bod yn cael eu hwyluso drwy'r cyllid grant penodol i gefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Ategwyd bod yr elfennau 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth' wedi ei drosglwyddo o'r GAALl 'Diwygio' yn llawn i GwE gan holl Awdurdodau Lleol y rhanbarth er mwyn cynnig darpariaeth i gefnogi'r agweddau yma ac sydd yn bodloni telerau ac amodau'r grant.

Yn unol â chynlluniau busnes GwE a'r Awdurdodau Lleol ar gyfer 2024-25, bydd GwE yn adrodd i'r Cydbwyllgor ar yr elfen Diwygio - 'Cwricwlwm i Gymru' a 'Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth'. Yn ogystal, ac yn unol â gofynion monitro'r GAALl, bydd GwE yn darparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar yr elfennau yma, fel bod modd i'r Awdurdodau Lleol gyflwyno adroddiadau monitro yn erbyn y dibenion a'r amcanion a osodwyd, i Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad cynnydd am y cyfnod 01/04/2024 – 30/09/2024 oedd wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad, gan nodi nad oedd cwtogiad i'r ddarpariaeth ac nad oedd risgiau i'r gefnogaeth ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw hefyd at lefel uchel o staff oedd wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi er cyfyngiadau i'r gwasanaeth.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Nododd y Cadeirydd bod y data yn rhyfeddol o ystyried yr holl newidiadau sydd yn digwydd yn GwE a diolchwyd i'r staff, er gwaethaf y sefyllfa, am sicrhau parhad i'r gwasanaeth a'r gefnogaeth i ysgolion. Ategodd ei bod yn ddiolchgar iawn o'u hymrwymiad i'r gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r data rhanbarthol ac a yw ar gael fesul Awdurdod Lleol, cadarnhawyd bod y wybodaeth yn cael ei rannu gydag Awdurdodau Lleol unigol y Rhanbarth.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad cynnydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:25

______________________________________

**CADEIRYDD**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 19 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2024/25**<br><br>**Adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Ionawr 2025 ac yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y costau diswyddo perthnasol (gan gynnwys y gost o ryddhau pensiwn), rhagwelir y bydd y gorwariant hyd at £919,477 yn seiliedig ar y costau diswyddiadau uchaf. Mae'r ffigwr yma yn dilyn gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant hanesyddol o £221,310.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Ionawr 2025: gorwariant £1,104,407**

Sefydlwyd cyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn seiliedig ar nifer y staff yn Chwefror 2024. Mae arbediad wedi ei wireddu wedi i rai o aelodau staff GwE adael eu swyddi, secondiadau staff, yn ogystal â derbyniad grant. Mae'r adroddiad yma hefyd wedi ymgorffori penderfyniad y Cydbwyllgor ar 1 Awst 2024 i ailstrwythuro'r Uwch Dîm Reoli.

Yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, mae'r adolygiad ariannol yn cynnwys amcangyfrif o uchafswm cost diswyddo o oddeutu £1.7m i staff na fydd yn trosglwyddo i'r awdurdodau. Disgwylir cyfraniad Llywodraeth Cymru o £738k (£123k fesul awdurdod) tuag at y gost.

2.2 **Rhent:**

**Ionawr 2025: gorwariant £89,534**

Adroddwyd yn flaenorol y disgwyliad o orwariant ar y pennawd yma eleni o ganlyniad i rentu gofod mwy o faint yn swyddfa Caernarfon. Yn ychwanegol i hyn mae angen ystyried cost terfynu prydlesi swyddfeydd a bydd hynny yn gwaethygu'r gorwariant eleni.

2.3 **Cludiant:**

**Ionawr 2025: tanwariant (£34,032)**

Yn hanesyddol, mae'r pennawd yma wedi bod yn tanwario, ac yn seiliedig ar dueddiad Ebrill i Ionawr eleni, rydym yn rhagweld sefyllfa o danwariant yn parhau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffyrdd newydd o weithio rhithiol a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £221,310.

3.2 Fel yr eglurwyd yn rhan 1.1 uchod, bwriedir gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant er mwyn lleihau'r gorwariant ar gyfer 2024/25 i £919,477.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2024/25 – Adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2024/25 : Hyd at ddiwedd Ionawr

| | Cyllideb Diwygiedig Hydref £ | Addasiadau Ionawr £ | Cyllideb Diwygiedig Ionawr £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr - Cyflogau, Hyfforddiant, a costau gweithwyr eraill | 7,249,525 | 482,900 | 7,732,425 | 8,836,832 | 1,104,407 |
| Adeilad - Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 220,152 | 315 | 220,467 | 310,000 | 89,534 |
| Cludiant - Costau Teithio | 163,107 | | 163,107 | 129,075 | (34,032) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 86,721 | | 86,721 | 86,721 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 19,602 | | 19,602 | 0 | (19,602) |
| Ffioedd archwilio | 13,611 | | 13,611 | 14,091 | 480 |
| Rhaglenni Cenedlaethol / Comisiynu | 366,794 | 100,940 | 467,734 | 467,734 | 0 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | |
| Cyfreithiol | 6,804 | | 6,804 | 6,804 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 11,667 | | 11,667 | 11,667 | 0 |
| Cyllid | 50,449 | | 50,449 | 50,449 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 55,798 | | 55,798 | 55,798 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 476,880 | (185,903) | 290,977 | 290,977 | 0 |
| Ein Llais Ni | 53,985 | 48,378 | 102,364 | 102,364 | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | 70,000 | | 70,000 | 70,000 | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | 61,770 | | 61,770 | 61,770 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **9,376,812** | **446,630** | **9,823,442** | **10,964,229** | **1,140,787** |

| | Cyllideb Diwygiedig Hydref £ | Addasiadau Ionawr £ | Cyllideb Diwygiedig Ionawr £ | Incwm Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **<u>Incwm</u>** | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (23/24: 10.09% - 24/25: 10.04%) | (401,942) | | (401,942) | (401,942) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (23/24: 17.53% - 24/25: 17.55%) | (702,451) | | (702,451) | (702,451) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (23/24: 15.17% - 24/25: 15.24%) | (609,921) | | (609,921) | (609,921) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (23/24: 15.51% - 24/25: 15.62%) | (624,967) | | (624,967) | (624,967) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (23/24: 22.79% - 24/25: 22.71%) | (908,701) | | (908,701) | (908,701) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (23/24: 18.91% - 24/25: 18.84%) | (753,808) | | (753,808) | (753,808) | 0 |
| Gwasanaeth a Gomisiynwyd gan yr Awdurdodau | | | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (12.99%) | (569,720) | | (569,720) | (569,720) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (18.40%) | (806,630) | | (806,630) | (806,630) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (14.94%) | (655,581) | | (655,581) | (655,581) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (14.23%) | (624,384) | | (624,384) | (624,384) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (20.80%) | (912,493) | | (912,493) | (912,493) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (18.64%) | (817,891) | | (817,891) | (817,891) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (476,880) | 185,903 | (290,977) | (290,977) | 0 |
| Ein Llais Ni | (53,985) | (48,378) | (102,364) | (102,364) | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | (70,000) | | (70,000) | (70,000) | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | (61,770) | | (61,770) | (61,770) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (123,347) | (38,550) | (161,897) | (161,897) | 0 |
| Incwm Arall | (2,341) | (7,605) | (9,946) | (9,946) | 0 |
| Incwm Llywodraeth Cymru / Cyllid Pontio ar gyfer y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion (Cyfraniadau y 6 awdurod @ £123k) | (200,000) | (538,000) | (738,000) | (738,000) | 0 |
| Cyfraniad o'r gronfa tanwariant | 0 | 0 | 0 | (221,310) | (221,310) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(9,376,812)** | **(446,630)** | **(9,823,442)** | **(10,044,752)** | **(221,310)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **919,477** | **919,477** |

**<u>Memorandwm -</u>**
**<u>Y Gronfa Tanwariant</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2024** | **(221,310)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2024/25 | 0 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 221,310 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2025** | **0** |

**<u>Y Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2024** | **(455,235)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2024/25 | 0 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2025** | **(455,235)** |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 19 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2025/26** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2025/26 (Atodiad 1) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer Ebrill – Mai 2025/26 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol

1.1 Mae'r gyllideb wedi ei addasu i adlewyrchu'r penderfyniad i ddod a GwE i ben ar 31 Mai 2025.

1.2 Yn sgil hynny, mae'r gyllideb wedi ei haddasu i gynnwys yr hyn sydd ei angen dros y cyfnod, gan gynnwys costau staffio ragwelir ar sail staff cyflogedig 1 Chwefror 2025.

## 2. Dull ariannu Grantiau Llywodraeth Cymru 2025/26

2.1 Yn 2024/25 penderfynwyd Llywodraeth Cymru i dalu'r Grant Addysg Awdurdod Lleol (G.A.A.Ll) i'r cynghorau / ysgolion yn uniongyrchol, ac nid i'r consortia rhanbarthol, gyda gofynion a risgiau y grant bellach yn gyfrifoldeb y Cynghorau unigol.

2.2 Er mwyn sicrhau fod modd parhau i gynnig lefelau cyfatebol o gymorth, gwasanaeth i ysgolion ag awdurdodau ar draws gogledd Cymru, bu symudiad tuag at drefniant comisiynu, lle byddai awdurdodau'r gogledd yn prynu'r gwasanaeth cyfredol (megis cefnogaeth Dysgu Proffesiynol a Datblygu'r Cwricwlwm) gan GwE, gyda hyn uwchlaw y gwasanaeth craidd roedd GwE yn ei ddarparu.

2.3 Mae oddeutu hanner y swyddi cyfredol yn cael ei ariannu o'r arian yma, a felly mae'r gyllideb wedi ei sefydlu wrth ddisgwyl i'r awdurdodau barhau i gyfrannu o'i grantiau nhw, gyda'r swm a adnabyddir yn cyfateb i 2 fis o'i ddyraniad 2025/26 o'r "Cymorth i Safonau mewn Addysg" a'r "Rhaglenni Diwygio".

**3. Y Gronfa Gyffredinol**

3.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2024/25 - Adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn rhagweld defnydd llawn o'r gronfa gyffredinol erbyn 31/03/2025.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2025/26

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2025-26

| | Cyllideb Diwygiedig Ionawr 2024/25 £ | Addasiadau £ | Cyllideb Terfynol 2025/26 (2 fis) £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr - Cyflogau | 7,732,425 | (6,749,617) | 982,808 |
| Hyfforddiant, a costau gweithwyr eraill | 0 | 12,334 | 12,334 |
| Adeilad - Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 220,467 | (182,987) | 37,480 |
| Cludiant - Costau Teithio | 163,107 | (141,923) | 21,184 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 86,721 | (71,979) | 14,742 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 19,602 | (19,602) | 0 |
| Ffioedd archwilio | 13,611 | 272 | 13,883 |
| Rhaglenni Cenedlaethol / Comisiynu | 467,734 | (388,218) | 79,515 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | |
| Cyfreithiol | 6,804 | (5,647) | 1,157 |
| Adnoddau Dynol | 11,667 | (9,684) | 1,983 |
| Cyllid | 50,449 | (15,384) | 35,065 |
| Technoleg Gwybodaeth | 55,798 | (46,312) | 9,486 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | (469,948) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 290,977 | (290,977) | 0 |
| Ein Llais Ni | 102,364 | (102,364) | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | 70,000 | (70,000) | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | 61,770 | (61,770) | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **9,823,443** | **(8,613,806)** | **1,209,637** |

| | Cyllideb Diwygiedig Ionawr 2024/25 £ | Addasiadau £ | Cyllideb Terfynol 2025/26 (2 fis) £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau craidd ar gyfer costau rhedeg GwE am ddau fis cyntaf 25/26 | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (24/25: 10.04% - 25/26: 10.03%) | (401,942) | 343,422 | (58,520) |
| - Cyngor Gwynedd (24/25: 17.55% - 25/26: 17.47%) | (702,451) | 600,522 | (101,929) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24/25: 15.24% - 25/26: 15.25%) | (609,921) | 520,945 | (88,976) |
| - Cyngor Sir Ddinbych (24/25: 15.62% - 25/26: 15.77%) | (624,967) | 532,957 | (92,010) |
| - Cyngor Sir y Fflint (24/25: 22.71% - 25/26: 22.50%) | (908,701) | 777,425 | (131,276) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (24/25: 18.84% - 25/26: 18.98%) | (753,808) | 643,069 | (110,739) |
| | | | |
| Gwasanaeth a Gomisiynwyd gan yr Awdurdodau (2 fis o arian LAEG) | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn | (569,720) | 495,345 | (74,375) |
| - Cyngor Gwynedd | (806,630) | 697,279 | (109,351) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (655,581) | 558,050 | (97,531) |
| - Cyngor Sir Ddinbych | (624,384) | 524,781 | (99,603) |
| - Cyngor Sir y Fflint | (912,493) | 783,482 | (129,011) |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (817,891) | 701,575 | (116,316) |
| | | | |
| Prosiectau Penodol | | | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (290,977) | 290,977 | 0 |
| Ein Llais Ni | (102,364) | 102,364 | 0 |
| Prosiect Cymraeg Mewn Addysg | (70,000) | 70,000 | 0 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) | (61,770) | 61,770 | 0 |
| | | | |
| Incwm Secondiadau | (161,897) | 161,897 | 0 |
| Incwm Arall | (9,946) | 9,946 | 0 |
| Incwm Llywodraeth Cymru / Cyllid Pontio ar gyfer y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion (Cyfraniadau y 6 awdurod @ £123k) | (738,000) | 738,000 | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(9,823,443)** | **8,613,806** | **(1,209,637)** |
| | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**19 CHWEFROR 2025**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Euros Davies – Pennaeth Gwasanaeth - Gwella Ysgolion** |
| | **Rhys Williams – Pennaeth Gwasanaeth - Dysgu Proffesiynol** |
| **Pwnc:** | **Parhad y Gwasanaeth - 01/04/2025 i 31/05/2025** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth gyda aelodau'r Cyd-bwyllgor am drefniadau gweithredu GwE am y cyfnod 01/04/2025 i 31/05/2025.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Prif Weithredwyr y chwe Awdurdod Addysg bellach wedi cadarnhau dyddiad terfynu GwE fel 31ain o Fai yn hytrach na'r 31ain o Fawrth, 2025.

2.2 Golygai hyn fod y Gwasanaeth yn parhau heibio i'r flwyddyn gyllidol presennol, a'r Cytundebau Comisynu a'r Cylluniau Busnes presennol, am gyfnod o ddau fis ychwanegol.

2.3 Mae cytundebau unigolion sydd ar secondiad neu'n gweithio ar gomisiwn i GwE yn dod i ben ar 31ain o Fawrth fydd yn effeithio ar gapasiti'r Gwasanaeth.

2.4 Mae'r penderfyniad hyn yn codi dau gwestiwn penodol:

- Sut fydd y Gwasanaeth yn cael ei gyllido yn ystod y cyfnod estynedig yma? (Gweler adroddiad blaenorol 'Cyllideb GwE 2025/2026').
- Beth fydd y gofynion ar y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod?

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 **Gweithredu 1af Ebrill – 31ain o Fai** - Er yn gyfnod o ddau fis, dim ond chwe wythnos fydd ysgolion yn agored yn ystod y cyfnod oherwydd gwyliau'r Pasg a hanner tymor.

3.2 Nid yw yn ymarferol i lunio Cynllun Busnes a Chytundeb Comisiynu ar gyfer y cyfnod byr hwn.

3.3 Yn ystod 2024-25, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cefnogi ysgolion o dan ddau bennawd o fewn ein Cynllun Busnes sef:

1. Amcan 1 – Gwella Ysgolion
2. Amcan 2 – Dysgu Proffesiynol

3.4 Isod eglurir sut y byddwn yn parhau i gefnogi ein hysgolion yn ystod y cyfnod o dan sylw.

3.5 **Amcan 1 – Gwella Ysgolion**

- Nid yw'n ymarferol i lunio Cytundeb Comisynu am gyfnod o chwe wythnos. Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion yn unol â'r gofyn sydd yn eistedd o fewn yr agweddau isod:

  1. Darparu swyddogaeth 'Arweinydd Craidd' i'r Awdurdod Lleol.
  2. Darparu cynnig craidd cyffredinol i gyflawni swyddogaeth statudol yr Awdurdod Lleol i gefnogi, monitro a herio ysgolion a lleoliadau.
  3. Darparu cymorth ychwanegol yn seiliedig ar anghenion ysgolion.
  4. Cefnogi ysgolion sy'n peri pryder (gan ddefnyddio dull cyson ar draws y rhanbarth).

- Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ymateb yn hyblyg i ofynion ysgolion gan sicrhau gwasanaeth llyfn a di-dor yn ystod y cyfnod trosiannol yma. Bydd hyn yn cynnwys yr ymweliadau arferol o fonitro a sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn yr ysgolion.

- Gan bod niferoedd staff yn gostwng, mewn rhai achosion bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant gwahanol i'r arfer yn gweithio gydag ysgolion a dalgylchoedd.

- Pe byddai diffyg na ellir ei lenwi, byddwn yn ystyried comisiynnu penaethiaid trwy gytundeb gyda'r Prif Swyddogion Addysg ac yn unol â'r hyn a gytunwyd arno yn y Cydbwyllgor ar 2 Hydref 2024.

3.6 **Amcan 2 - Dysgu Proffesiynol**

**Hyfforddiant Cenedlaethol**

- Mae amserlenni rhaglenni dysgu proffesiynol Cenedlaethol yn golygu bydd carfannau yn y meysydd canlynol sydd yn gyfrifioldeb i GwE heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma:

  - Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol
  - Rhaglen i Ddatblygu Uwch Arweinwyr
  - Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid mewn Gofal
  - Rhaglenni datblygu cymorthyddion – Darpar Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) / CALU
  - Rhaglenni Athrawon Newydd Gymhwyso

- Mae costau cyflogi staff, gweinyddu a llogi ystafelloedd hyfforddi ynghlwm â'r rhaglenni uchod.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ar lafar i sicrhau bod unrhyw raglen dysgu proffesiynol Cenedlaethol sy'n cael ei gyflwyno yn lleol/ranbarthol yn parhau tan ei ddiwedd. Mae hyn er mwyn sicrhau ecwiti ar draws Cymru ac er mwyn sicrhau nad yw ymarferwyr ac Awdurdodau y Gogledd ar eu colled.

- Mae'r ffynonellau cyllidol canlynol yn hanesyddol wedi cyfrannu at rediad y dysgu proffesiynol uchod: Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl), Cyngor y Gweithlu Addysg (ANG) a.y.b.

- Mae sesiynau yn y calendr i ddigwydd yn y cyfnod rhwng ddiwedd y flwyddyn ariannol a dyddiad dod a GwE i ben 31ain o Fai, 2025.

- Mae angen felly sicrhau bod cyllid cyfwerth â 2/12 yn cael ei drosglwyddo i GwE er mwyn anrhydeddu sesiynau sydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Ebrill a Mai 2025 yn parhau wedi i'r arian grant ddod i ben.

**3.7 Hyfforddiant Lleol/Rhanbarthol**

- Yn hanesyddol mae GwE yn darparu dysgu proffesiynol i holl ymarferwyr y Rhanbarth ar ffurf Cynnig Dysgu Proffesiynol sy'n deillio o Gynllun Busnes y Gwasanaeth.

- Eleni yn 2024/25, mae'r Cynnig wedi esblygu i gyd fynd â'r flwyddyn ariannol ac mae'r arlwy wedi ei gyfyngu i delerau ac amodau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl).

- Gan nad yw GwE yn dod i ben bellach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd dau fis ble na fydd Cynnig Dysgu Proffesiynol yn cael ei gynnig i ysgolion. Nid yw yn ymarferol i lunio Cynllun Busnes, llunio a gweinyddu Cynnig Dysgu Proffesiynol newydd am gyfnod o ddau fis.

- Bydd staff sydd yn hanesyddol yn darparu hyfforddiant drwy'r Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gael i gefnogi ysgolion am y cyfnod yma (ar gais Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt drwy law yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Craidd perthnasol yn unol ag anghenion yr ysgolion).

- Bydd hyblygrwydd i'r staff hyn gynnal sesiwn/sesiynau dysgu proffesiynol unigol penodol os ydynt yn gweld yr angen a bod y capasiti ganddynt. Gall hyn olygu hefyd gefnogi Hyfforddiant Mewn Swydd ar gais Clwstwr neu Awdurdod yn dilyn rhybydd amserol. Ni fydd unrhyw hyfforddiant o'r fath wedi ei gyfyngu i delerau ac amodau yr GAALl newydd ar gyfer Ebrill 2025.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo trefniadau gweithredu GwE am y cyfnod 01/04/2025 i 31/05/2025.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'w adnoddau ariannol am y cyfnod 01/04/2025 i 31/05/2025.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Mae angen amserlen cytunedig ar draws yr awdurdodau er mwyn osgoi goblygiadau Cydraddoldeb o ran y cyfnod trosiannol.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Gyda llai o staff ar ôl 31/03/2025, bydd hyn yn effeithio ar gapasiti'r Gwasanaeth. Pe byddai diffyg na ellir ei lenwi, byddwn yn ystyried comisiynu penaethiaid trwy gytundeb gyda'r Prif Swyddogion Addysg.

**8.0 Ymgynghori â wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Mae'r adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen ymarferol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai. Fel sydd wedi ei nodi yn rhan 5 o'r adroddiad, mae disgwyl bydd GwE yn gweithredu o fewn y gyllideb sydd wedi ei gytuno ar gyfer 2025/26.